



Ein cyf: KS/368/20

29 Hydref 2020

Annwyl Aelodau'r Senedd,

Fel y gwyddoch, roedd Cam 3 y Gronfa Cadernid Economaidd ar agor ar gyfer ceisiadau ddoe. Bydd Cam 3 y CCE yn sicrhau bod bron £300 miliwn ar gael i fusnesau i helpu iddynt ymdopi â heriau economaidd Covid-19 ac ymadawiad y DU o'r cyfnod pontio â'r UE.

Bydd y trydydd cam gwell yma o'r CCE yn darparu grantiau datblygu busnes ac yn helpu busnesau i gynnal a pharatoi eu hunain ar gyfer yr hirdymor, gan gynnwys cymorth wedi'i glustnodi ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch. Mae'r pecyn hefyd yn cynnig cymorth i fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan y cyfnod atal, yn ogystal â'r rhai hynny sydd mewn ardaloedd oedd â chyfyngiadau lleol. Mae Grant Dewisol y Cyfyngiadau Symud hefyd ar gyfer busnesau.

Mae'r galw am y Grantiau Datblygu Busnes wedi bod yn eithriadol, ac wrth ysgrifennu, roeddem wedi derbyn dros 5,000 o geisiadau. Felly, o 6pm heno, bydd oedi gyda'r gronfa er mwyn asesu y ceisiadau yn erbyn gwerth y gronfa.

Cofiwch er y bydd gan rai busnesau adeiladau sy'n gymwys yn awtomatig ar gyfer grant Cyfraddau Annomestig, er mwyn derbyn unrhyw un o Grantiau Busnes y Cyfyngiadau Symud, bydd angen i fusnesau gofrestru eu manylion, yn ogystal â gwneud cais byr ar-lein i'w hawdurdod lleol ar gyfer yr elfennau dewisol. Bydd yn bosibl cofrestru a gwneud cais drwy fynd i wefan yr awdurdod lleol perthnasol, neu drwy wefan Busnes Cymru ar y ddolenni isod.

Gall busnesau wneud cais am Grantiau Datblygu Busnes y Gronfa Cadernid Economaidd drwy'r gwiriwr yma: <https://fundchecker.businesswales.gov.wales/erfphase3/cy>

Mae'n bosibl gweld y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Symud yma: <https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/y-gronfa-i-fusnesau-dan-gyfyngiadau-symud>

Hefyd, mae modd gweld y pecyn cymorth a chynghor ehangach ar Covid-19 yma: <https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy>

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r mesurau yr ydym wedi'u cymryd yn ychwanegol at y rhai hynny a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU, gan wneud y pecyn cymorth yng Nghymru yr un mwyaf cynhwysfawr a hael yn y DU.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Arweinwyr yr awdurdodau lleol a chydweithwyr ledled Cymru am eu gwaith caled yn helpu inni ddarparu y grantiau hynod bwysig hyn i fusnesau.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', with a long, sweeping horizontal stroke above the letters.

Ken Skates AS

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru